# Bara Saim

Trad
Trefniant Emyr Rhys




Gorwedd mae'r plantos, gorwedd yn gaeth,
dau mor wael a'r un arall yn waeth.
Draw ddaeth y meddyg a dwedodd fel hyn,
'llwyth o fara saim bwytwch fel y myn'.

Wedi 'rhen blantos, gwael yn eu gwlâu,
glywed be' bu'r meddyg yn caniatáu.
Neidio i'r awyr a dawns a chân,
Sgipio'n ffri wedi gwirioni'n lân.

Mynd am y gegin, mynd am y plwm,
llenwi mhocedau nes eu bod yn drwm.
Dwyn y badell, dwyn y plwm,
Dwyn y ferch a'm mhocedau'n drwm.

Daliwyd fi da'r badell, daliwyd fi da'r plwm,
daliwyd fi da'r bara efo'r merch ynghlwm.
Doler am y badell a doler am y plwm,
chwe mis dan glo er i mi dalu'r swm.